# Cynllun Datblygu Lleol Newydd

## Fersiwn Cryno o'r Adneuad

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL



# Cyflwyniad

Mae Conwy yn tyfu ac yn datblygu:

- Mae ein cymunedau bob amser yn newid.
- Mae pobl yn symud i mewn ac mae eraill yn symud allan.
- Mae angen cartrefi, ysgolion, busnesau, ffyrdd a chysylltiadau trafnidiaeth newydd.
- Mae technoleg yn golygu ein bod ni'n byw ac yn gweithio mewn ffyrdd newydd.

Mae hyn yn dod â llawer o gyfleoedd ond hefyd rhai heriau. **Mae angen inni gynllunio rŵan ar gyfer y dyfodol.**

Mae ein Cynllun Datblygu Lleol wedi bod ar waith ers 2013, ond rŵan mae gennon ni un arall yn ei le.



**Rydym ni wedi edrych ar y dystiolaeth a'r sylwadau a dderbyniwyd ac wedi ysgrifennu'r Cynllun Adneuad llawn (Cam 6). Mae ar gael i'w ymgynghori arno'n gyhoeddus rŵan.**

# Camau'r CDLIN

| | |
|---|---|
| **Cam 1** | Fe wnaethon ni edrych ar Adroddiad Adolygu'r CDLl. Fe helpodd hyn ni i ddeall beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei newid. |
| **Cam 2** | Fe wnaethon ni sefydlu Cytundeb Cyflenwi ac amserlen. |
| **Cam 3** | Fe wnaethon ni ofyn i dirfeddianwyr, datblygwyr ac eraill i awgrymu unrhyw safleoedd y gallen ni eu defnyddio. |
| **Cam 4** | Fe wnaethon ni wrando ar gymunedau, datblygwyr ac eraill i gael gwybod eu barn nhw am sut i ddefnyddio'r tir. |
| **Cam 5** | Rydym ni wedi ysgrifennu ac ymgynghori ynghylch y **strategaeth a ffefrir**. |

**Cam 6**
**Cynllun Adneuad**

Mae'r Cynllun Adneuad bellach wedi'i gyhoeddi. Dyma'r cam lle gallwch wneud sylwadau cyn iddo gael ei archwilio gan Arolygydd annibynnol.

**Rydyn ni am wybod beth ydych chi'n ei feddwl am ein cynlluniau a'n polisïau.** Ydy'r strategaeth hon:

- yn darparu digon o gartrefi newydd a thai fforddiadwy?
- yn darparu digon o swyddi newydd i gyfrannu at dwf economaidd?
- yn darparu digon o seilwaith i gefnogi twf?
- yn paratoi Conwy ar gyfer y dyfodol?

| | |
|---|---|
| **Cam 7** | Bydd yr Arolygydd yn archwilio'r cynllun mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Ar ôl hyn, bydd yr Arolygydd yn ysgrifennu adroddiad ar y cynllun. |
| **Cam 8** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn mabwysiadu'r cynllun ar sail adroddiad yr Arolygydd. |

# Fframwaith y CDLlN

## Datblygu yn y Mannau Cywir

Mae CDLlN Conwy yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer datblygiad yn y dyfodol. Mae'n nodi lle dylai twf a datblygiad ddigwydd, gan roi manylion am ddyraniadau tir i gyflawni'r weledigaeth ac i ateb anghenion cymunedau Conwy. Mae prif elfennau CDLlN Conwy yn cynnwys:

**Twf Tai ac Economaidd:** Cynlluniau ar gyfer y cartrefi a'r swyddi sydd eu hangen i gefnogi cymunedau a busnesau lleol.

**Darpariaeth Seilwaith:** Yn nodi'r gofynion ar gyfer seilwaith hanfodol, gan gynnwys ffyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau cerdded/beicio.

**Gwasanaethau Cymunedol:** Yn ymdrin â darparu gwasanaethau fel addysg ac iechyd.

**Diogelu'r Amgylchedd:** Yn cynnwys polisïau i ddiogelu mannau gwyrdd, coetiroedd, parciau a threftadaeth ddiwylliannol ardal.

**Dyraniadau Tir:** Yn dynodi ardaloedd penodol ar gyfer datblygu yn y dyfodol, megis tai neu ddefnydd busnes.

**Polisïau Strategol:** Yn nodi'r polisïau a'r blaenoriaethau eang sy'n llywio datblygu mewn ardal.

# Gweledigaeth

**Erbyn 2033, bydd ffocws newydd ar greu lleoedd yn dod â lleoedd cynaliadwy, gwell llesiant a mwy o gyfleoedd i fyw, gweithio ac ymweld. Bydd hyn yn helpu'r Gymraeg i ffynnu, gan sicrhau bod Conwy yn fwy cyfartal, llai o amddifadedd ac yn wydn i genedlaethau'r dyfodol.**



# Themâu a Pholisïau Strategol

**Mae'r cynllun yn seiliedig ar bedwar thema.** Mae'r themâu hyn yn llywio ble dylai datblygiad fynd a sut y bydd Conwy yn tyfu.

## 1

### Dewisiadau strategol a gofodol

Sut rydym ni'n penderfynu ble dylai cartrefi newydd, swyddi a gwasanaethau fynd, a sut mae lleoedd yn cyd-fynd â'i gilydd.

- Dull creu lleoedd
- Safleoedd datblygu ar draws y sir

## 2

### Lleoedd iach a chymdeithasol

Cartrefi, opsiynau teithio, gwasanaethau a mannau sy'n helpu pobl i fyw'n dda.

- Tai a thai fforddiadwy
- Cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus
- Canol trefi a siopau lleol
- Gwasanaethau cymunedol fel ysgolion ac iechyd
- Parciau, meysydd chwarae a chyfleusterau chwaraeon

## 3

### Lleoedd ffyniannus

Cefnogi swyddi, busnesau lleol ac economi wyrddach.

- Tir busnes a chyflogaeth
- Twristiaeth
- Datblygiad carbon isel a sero-net
- Mwynau a gwastraff

## 4

### Lleoedd naturiol a diwylliannol

Diogelu a dathlu ein natur, tirweddau a threftadaeth.

- Bywyd gwyllt ac adfer natur
- Ansawdd y dirwedd a'r amgylchedd
- Adeiladau hanesyddol a safleoedd treftadaeth



# Amcanion

## Creu Lleoedd Cynaliadwy yng Nghonwy


Mae yna gysylltiad rhwng y cynllun hwn a chynlluniau a pholisïau eraill sy'n effeithio ar Gonwy. Mae eu defnyddio nhw gyda'i gilydd yn ein helpu ni i siapio Conwy a'i wneud yn lle cynaliadwy.

### Amcan 1

Creu lleoedd cynaliadwy, cynhwysol a gwella llesiant yng Nghonwy. Gwneud yn siŵr bod twf a datblygiad yn y dyfodol:

- yn digwydd yn y lleoliadau iawn
- yn hybu dylunio da a lleoedd iachach
- yn diogelu'r Gymraeg
- yn cael eu cefnogi gan seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd i greu lleoedd gwych.

Gellir gwneud hyn trwy greu lleoedd ac adfywio.



## Lleoedd Iach a Chymdeithasol yng Nghonwy

Mae'r cynllun hwn yn hybu cymunedau cysylltiedig – lleoedd diogel ac iach sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd.

### Amcan 2

Hybu twf cyflogaeth a thai:

- cyflenwi tai newydd, gan gynnwys cartrefi fforddiadwy
- diwallu anghenion llety sipsiwn a theithwyr
- gwneud yn siŵr bod yna'r seilwaith sydd ei angen.

### Amcan 3

Creu canol trefi bywiog, deniadol a hyfyw - gan ail-lunio'u rôl ac annog arallgyfeirio.

### Amcan 4

Ychwanegu naws am le, iechyd, llesiant a swyddogaeth at gymunedau trwy gael cymysgedd o gyfleusterau.

### Amcan 5

Annog llesiant corfforol a meddyliol trwy fannau gwyrdd a chyfleusterau hamdden.

### Amcan 6

Datblygu yn gynaliadwy ac ymdrin â'r pethau sy'n achosi newid yn yr hinsawdd.

# Lleoedd Ffyniannus yng Nghonwy

Mae'r cynllun hwn yn helpu i ddod â chyflogaeth a datblygiad economaidd.

**Amcan 7**

Cefnogi twf economaidd, ffyniant, arallgyfeirio ac adfywio yn y tymor hir:

- manteisio ar ein lleoliad rhanbarthol
- cael y math iawn o dwf swyddi yn y lleoliadau iawn
- cefnogi rhwydweithiau a chlystyrau busnes
- cynyddu sgiliau
- gwella'r seilwaith

**Amcan 8**

Annog twristiaeth gynaliadwy.

**Amcan 9**

Cefnogi cymunedau gwledig fel eu bod nhw'n gynaliadwy a bywiog.

**Amcan 10**

Sicrhau darpariaeth ynni gymysg – gan hybu'r Morlyn Llanw newydd.

**Amcan 11**

Cyfrannu at ddechrau'r economi gylchol trwy:

- gefnogi arloesi
- rheoli gwastraff
- rheoli defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol.

# Lleoedd Iach a Chymdeithasol yng Nghonwy

Mae'r cynllun hwn yn hybu cymunedau cysylltiedig – lleoedd diogel ac iach sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd.

**Amcan 12**

Amddiffyn a gwella asedau ein treftadaeth naturiol a diwylliannol.

**Amcan 13**

Cefnogi twf a datblygiad mewn Ardaloedd Arfordirol – gan fod yn ymwybodol o heriau natur.

**Amcan 14**

Diogelu a gwella bioamrywiaeth ac adeiladu ecosystemau gwydn.

**Amcan 15**

Lleihau llygredd aer a sŵn




# Cartrefi Newydd

## Twf tai

Fe fydd y cynllun hwn yn ychwanegu **4,300** o gartrefi newydd gan gynnwys o gartrefi fforddiadwy. Fe fydd y tai hyn yn cefnogi anghenion gwledig a threfol.

| | Cyflenwad Presennol | Dyraniadau Newydd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Gorllewin | 215 | 200 | 420 |
| Creuddyn | 925 | 410 | 1,335 |
| Canolog | 1,035 | 330 | 1,365 |
| Dwyrain | 660 | 275 | 935 |
| Gwledig | 145 | 100 | 245 |
| CYFANSWM | 2,980 | 1,320 | 4,300 |

Efallai na fydd cyfansymiau yn adio i fyny oherwydd talgrynnu.




I wneud hyn, fe fyddwn ni'n canolbwyntio:
**90%** o dwf o fewn Ardal Strategaeth

Datblygu'r Arfordir
**10%** o fewn Ardal y Strategaeth Datblygu Gwledig


Mae'r cyflenwad presennol yn cynnwys:

- **Wedi'u cwblhau** - pob tŷ a godwyd ers 2018
- **Ymrwymiadau** – safleoedd datblygu mawr sydd efo caniatâd cynllunio
- **Safleoedd ar hap** – safleoedd eraill, fel rheol mewn ardaloedd adeiledig, a ddisgwylir i gael eu datblygu yn ystod cyfnod y CDLlN.

Mae'r dyraniadau'n cynnwys:

- dyraniadau CDLl presennol sy'n debygol o gyfrannu at y cyflenwad tai
- dyraniadau newydd a gynigwyd yn y CDLlN.

Ers 2018 mae dros **1,300** o gartrefi newydd wedi'u hadeiladu yn yr ardal. Mae'r rhain yn cynnwys **430** o gartrefi newydd fforddiadwy.




# Cyflogaeth Newydd

## Twf Swyddi

Mae'r cynllun hwn yn ceisio ychwanegu **1,500** o swyddi newydd.

Bydd arno angen **16.4 hectar o dir** – mae hynny'n seiliedig ar dueddiadau twf gwahanol sectorau'r farchnad.

**Mae'r cynllun newydd yn cynnwys defnyddio tir i wneud lle ar gyfer:**





I wneud hyn, fe fyddwn ni'n canolbwyntio:

**90% o dwf o fewn Ardal Strategaeth Datblygu'r Arfordir**

**10% o fewn Ardal y Strategaeth Datblygu Gwledig**




**35%**
**Safleoedd busnes a swyddfeydd B1 a/b**




**65%**
**Defnyddiau diwydiannol a warysau B1c, B2 a B8**




Mae gan Gonwy gyflenwad tir cyflogaeth o **9 hectar**. Mae hyn yn golygu bod arnom ni angen dyrannu tua **7 hectar** arall i ddiwallu'r angen o **16 hectar** o dir cyflogaeth tan 2033.



# Dyraniadau newydd arfaethedig

Dyma restr o'r safleoedd arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r map cynigion.

- Caeffynnon, Llanfairfechan (tai ac ysgol gynradd)
- Nant y Coed, Cyffordd Llandudno (tai)
- Ffordd Pentywyn, Llanrhos (tai)
- Ffordd y Frenhines, Llandudno (tai)
- Fferm Peulwys, Hen Golwyn (tai)
- Ffordd Dinerth, Llandrillo-yn-Rhos (tai)
- Penloyn, Llanrwst (tai)
- Meysydd Chwarel Llanddulas 1, 2 a 3 (cyflogaeth)
- Bryniau, Llandudno (cyflogaeth)
- Ardal 4 Chwarel Llanddulas (solar)

## Dywedwch eich dweud

I weld neu ymateb i'r ymgynghoriad, cliciwch yma:
conwy.gov.uk/RLDP/consultation

